**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**26/03/2021**

**Teitl:** Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2021/22

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2021/22 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais).

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

**Gofynnir i'r Bwrdd:-**

**2.1 Cymeradwyo Cyllideb Refeniw 2021/22 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddiadau unwaith ac am byth o £415,000 yn y gyllideb refeniw i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir.**

**2.2 Cymeradwyo Cyllideb Gyfalaf 2021/22 hyd 2025/26 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.**

**2.3 Cyllido'r Adolygiadau Porth (Sicrwydd) ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr y Prosiectau.**

**2.4 Gofyn yn ffurfiol i bob un o'r chwe awdurdod lleol gydweithredu wrth ddefnyddio eu hyblygrwydd ariannu i ryddhau cyllid refeniw i'r Bwrdd Uchelgais. Golyga hyn gyfnewid y cyllid sydd wedi'i ddynodi i'r Cynllun Twf yn erbyn prosiectau cyfalaf eraill o fewn eu rhaglenni cyfalaf a sicrhau bod cyllid refeniw o werth cyfartal ar gael i'r Cynllun Twf i ariannu eu heitemau math refeniw.**

**2.5 Gofyn i'r Swyddfa Rheoli Portffolio adolygu costau'r prosiectau yn ystod y flwyddyn wrth i ragor o wybodaeth ddod i law, ymhellach i'r costau nas ragwelwyd sydd bellach wedi'u hadnabod yn y gyllideb refeniw. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried yr opsiwn o ariannu rhan o'r gwariant hwn o gyllideb gyfalaf y prosiect unigol.**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.

3.2 Gosod y gyllideb arfaethedig fesul prosiect a'r ariannu cyfalaf cyfatebol ar gyfer 2021/22 hyd 2025/26.

3.3 Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

3.4 Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Mae'r gyllideb refeniw ar ffurf debyg i flynyddoedd blaenorol, gyda "Prosiectau" wedi'i gynnwys fel pennawd ychwanegol eleni.

4.2 Derbyniwyd y Llythyr Dyfarnu Cyllid ar gyfer grant Bargen Twf Gogledd Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021, a derbyniwyd y rhandaliad cyntaf o £16m ar 12 Mawrth 2021. O ganlyniad, mae cyllideb gyfalaf wedi'i chynnwys i ddarparu'r proffil gwariant ar gyfer gwariant y prosiectau dros y pum mlynedd nesaf.

**<u>Cyllideb Refeniw</u>**

<u>Swyddfa Rheoli Portffolio - £1,612,840</u>

4.3 Mae'r gyllideb ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn seiliedig ar 21 swydd lawn amser, ac yn ychwanegol i'r cyllidebau safonol megis hyfforddiant, teithio a chyfarfodydd, mae cyllidebau wedi'u cynnwys ar gyfer Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus, Datblygu'r Portffolio a'r Rhaglenni a chefnogaeth allanol ar gyfer Caffael a Thrafnidiaeth.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol - £175,710

4.4 Mae'r Corff Atebol yn darparu'r gwasanaethau cefnogol sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol, Cefnogaeth Gorfforaethol a Thechnoleg Gwybodaeth.

4.5 Caiff ystod y gwasanaethau a gynigir, y dulliau codi ffi a'r amcangyfrif costau eu cytuno gyda phob Adran.

Cyd-bwyllgor

4.6 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £18,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas â materion llywodraethu a pholisi.

4.7 Ffioedd Cyllidol Allanol - £10,000

Bydd y gyllideb hon yn bennaf ar gyfer mewnbwn gan yr Ymgynghorwyr Trysorlys allanol ar gyllid cyfalaf y prosiectau.

4.8 Ffi Archwilio Allanol - £11,000

O 2021/22, bydd y Cyd-bwyllgor wedi'i gategoreiddio'n "gorff perthnasol mwy" ac mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu y cynhyrchir datganiad cyfrifon llawn. Bydd y Cyfrifon hyn yn destun archwiliad blynyddol gan Archwilwyr Allanol Cyngor Gwynedd, ac mae amcan gyllideb wedi'i seilio ar Gyd-bwyllgorau mwy tebyg eraill wedi'i defnyddio.

4.9 Bwrdd Cyflawni Busnes - £20,000

Ar 5 Chwefror 2021, cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais y byddai'r Bwrdd Cyflawni Busnes diwygiedig yn gweithredu'n wirfoddol gyda'r gyllideb o £20,000 a ddarparwyd yn hanesyddol ar gyfer tâl y Cadeirydd yn cael ei ddyrannu i waith y Bwrdd diwygiedig yn 2021/22.

Prosiectau

4.10 Mae ffigyrau'r gyllideb yn amcan ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth fwyaf cyfredol sydd ar gael, ac mae'n cynnwys costau nas ragwelwyd yn flaenorol i fod yn rhan o'r gyllideb refeniw. Bydd angen iddynt gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i ragor o wybodaeth ddod i law, gan ystyried yr opsiwn o ariannu rhan o'r gwariant hwn o gyllideb gyfalaf y prosiectau unigol.

4.11 Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau - £250,000

Bydd pob un o'r 21 prosiect unigol angen Achos Busnes wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gyfrifol am ariannu'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais, a bydd hyn yn cynnwys gwaith arbenigol helaeth gan gwmnïau allanol. Yn ogystal â'r £250,000 sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer 2021/22, mae'n debygol y bydd angen £250,000 pellach yn y blynyddoedd dilynol er mwyn cwblhau'r gwaith hwn.

4.12 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £100,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas ag achosion busnes y prosiectau.

4.13 Sicrwydd - £100,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer Adolygiadau Porth y Llywodraeth ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr y Prosiectau.

4.14 Llog - £678,020

Bydd y cyfraniadau llog a dderbynnir gan bartneriaid wedi'u rhoi i un ochr i ariannu'r gost gyfartalog o fenthyca sy'n gysylltiedig ag ariannu'r gyllideb gyfalaf dros oes y cynllun twf.

Cyfraniadau Ariannu

4.15 Cyfraniadau Partneriaid - (£400,000)

Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 (GA2), mae Cyllideb 2021/22 yn cynnwys cyfraniad o £50,000 gan y chwe awdurdod lleol a £25,000 gan y pedwar ymgynghorydd, i roi cyfanswm cyfraniad o £400,000. Mae cyfraniadau'r partneriaid wedi aros yr un peth ers 2020/21, heb unrhyw gynnydd chwyddiannol er mwyn

adlewyrchu'r hyn y cytunwyd arno'n flaenorol fel sail er mwyn i'r partneriaid unigol osod eu cyllidebau ar gyfer 2021/22. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen i gyfraniadau'r partneriaid gynyddu yng nghyllidebau'r dyfodol i adlewyrchu'r chwyddiant ar gyflogau, yswiriant gwladol a phensiwn yn unol â chymal 15.4.3 GA2.

4.16 <u>Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol - (£240,000)</u>

Eto, yn unol â GA2, mae'r gyllideb yn cynnwys £40,000 gan y chwe awdurdod lleol i roi cyfanswm cyfraniad o £240,000. Ariannir cyllideb y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol o £42,290 o'r cyfraniadau hyn.

4.17 <u>Cyfraniadau Llog y Partneriaid - (£678,020)</u>

Mae cyfraniadau llog y partneriaid o £678,020 yn adlewyrchu'r ffigyrau a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Hydref 2020. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU yng Nghyllideb y Canghellor ar 3 Mawrth 2021 yng nghyswllt cwtogi'r cyfnod ariannu o 15 mlynedd i 10 mlynedd, caiff y cyfrifiadau llog eu hail-gyfrifo unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru. Yn y dyfodol, caiff y cyfraniadau eu hadolygu i adlewyrchu cost benthyca, proffil diwygiedig y rhaglen gyfalaf ac oes cynnyrch cyfraddau busnes.

4.18 <u>Cyllid Blaenoriaeth 5 y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) - (£858,120)</u>

Mae'r cyllid ESF yn cyfrannu at y gwariant ar weithwyr, a'r amcan gyllid ar gyfer 2021/22 yw £858,120.

4.19 <u>Grant Bargen Twf Gogledd Cymru - (£384,430)</u>

Er bod grant Bargen Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae 1.5%, sydd gyfwerth â £3.6m o grant Bargen Twf Gogledd Cymru wedi'i glustnodi i ariannu gwariant refeniw y Swyddfa Rheoli Portffolio. Gellir cyflawni'r hyblygrwydd hwn yn yr un ffordd ag y mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i reoli cyllid eu rhaglenni cyfalaf eu hunain. Mae copi drafft o lythyr Trefniadau Ariannol y Cynllun Twf wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru, a phan gaiff ei ffurfioli, bydd hyn yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd Uchelgais yn nhermau hyblygrwydd y cyllid. Gall hyn gynnwys pob un o'r chwe awdurdod lleol yn clustnodi'r cyllid sydd wedi'i ddynodi i'r Cynllun Twf yn erbyn prosiectau cyfalaf eraill o fewn eu rhaglenni cyfalaf a sicrhau bod cyllid refeniw o werth cyfartal ar gael i'r Cynllun Twf i ariannu eu heitemau math refeniw.

4.20 Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi - (£415,000)

Yn ogystal â’r Gyllideb Sylfaenol, bydd angen trosglwyddiadau unwaith ac am byth i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn a glustnodir yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn bennaf yn ariannu'r wefan, brand a'r strategaeth gyfathrebu; datblygu'r portffolio a'r rhaglenni; cefnogaeth allanol ar gyfer caffael a thrafnidiaeth; datblygu achosion busnes y prosiectau ar gyfer y prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Adolygiadau Porth y Llywodraeth ar gyfer yr holl brosiectau.

4.21 Roedd yr adolygiad trydydd chwarter yn amcangyfrif gweddill o £654,000 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar 31 Mawrth 2021. Wedi defnyddio £415,000 o'r balans hwn i ariannu trosglwyddiadau unwaith ac am byth yn 2021/22, bydd £239,000 ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

**Cyllideb Gyfalaf**

4.22 Mae'r cyllideb gyfalaf yn dangos proffil gwariant ar gyfer y 21 prosiect dros y cyfnod o 2021/22 hyd 2025/26. Mae'n seiliedig ar amserlen ddiweddaraf y prosiectau, a chaiff ei hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo. Mae'n dangos fel cyfanswm o £236.4m gan fod 1.5% wedi'i frigdorri i ariannu'r gyllideb refeniw.

4.23 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, tybir y bydd y cyllid yn cael ei dderbyn dros 10 mlynedd a'i gyfateb gan Lywodraeth Cymru. Bydd £135m o'r cyllid grant ar gael i ariannu'r gwariant wrth iddo godi. Bydd y £101m sy'n weddill wedi'i ariannu drwy fenthyca i ddechrau, ac yna'i ad-dalu gyda'r grant a dderbynnir yn 2025/26 hyd 2029/30.

4.24 Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir rheolaethau yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi'u cynnwys yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i arianwyr y prosiectau ymdrin ag ef mewn perthynas a'u prosiectau nhw.

**5. Y Cyd-destun Llywodraethol**

5.1 Mae angen i'r corff atebol baratoi'r Gyllideb Flynyddol ac mae angen i Gyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais gytuno iddi.

5.2 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2021/22 wedi'i pharatoi ar sail y rolau, y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u hadnabod hyd yma, gyda'r disgwyl i lefel yr adnoddau a glustnodir gael ei hadolygu'n barhaus a chaiff ei diweddaru wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

5.3 Caiff adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd eu cyflwyno i staff y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Grŵp Gweithredol. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Medi 2021 a Rhagfyr 2021 a'i gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chamau priodol eu cymryd.

**6. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

6.1 Cyflwynwyd Atodiadau 1 a 2 a'r wybodaeth o fewn yr adroddiad hwn i'r Grŵp Gweithredol ar 12 Mawrth 2021.

6.2 Rhannwyd fersiwn drafft o'r adroddiad hwn gyda swyddogion cyllid statudol y chwe awdurdod lleol gyda'r bwriad o gael cytundeb ar gyfnewid y cyllid cyfalaf/refeniw.

**7. Atodiadau**

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw 2021/22 y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

Atodiad 2 - Cyllideb Gyfalaf 2021/22 y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.